# COMMUNICATION - MAKATON

CARDIFF
CAERDYDD

## Importance of Communication

Being able to communicate is one of the most important skills we need in life. Almost everything we do involves communication; everyday tasks such as learning at school, asking for food and drink, sorting out problems, making friends and having fun. These all rely on our ability to communicate with each other.

## How Makaton Works

Most communication is through speaking to others. However, some people have difficulty with using speech and they need to use different ways to communicate, like using Makaton symbols and signs. When we speak, we often use extra tools to help the person we are communicating with understand what we are saying. For example, if we are asked for directions, we might point (gesture) or draw a picture. These are clues to help provide more information.

Makaton uses speech with signs (gestures) and symbols (pictures) to help people communicate. We also use facial expression, eye contact and body language to give as much information as possible.

## When should it be used?

Makaton is useful for supporting communication for children who have speech & language delay, general learning difficulties, Down's syndrome, social communication difficulties and children who have English as an additional language.
It is important that Makaton is used consistently and that all staff working with the child are aware of and use the signs. Makaton works best when used consistently with all the children in the setting regardless of ability and as part of the general provision within the setting.


## How can we introduce it?

It is useful to choose certain times of day where Makaton is used as part of a consistent routine. This can be snack time or story time. Certain signs would be chosen (not too many!) and used each time the routine is carried out.

It is important to choose signs that are motivating for the child i.e. 'train' for a child who loves trains. Do not be tempted to use signs that only benefit the staff! Start with a few signs (up to 5) until this is consistent and the child is responding to the signs and then gradually add more. Many children will not use the signs to initiate independently for a long time but this does not mean that it is not helpful.

## Top Tips

- Signs must be clear and consistent- do not change your signs even if the child signs it differently.
- Make sure the child can see you!
- Don't forget to use facial expressions and to SPEAK!
- There must be consistency if the system is to work.
- It should be used by all staff involved with the child.



www.makaton.org

# CYFATHREBU – MAKATON

## Pwysigrwydd Cyfathrebu

Mae gallu cyfathrebu yn un o'r sgiliau pwysicaf mae eu hangen arnom mewn bywyd. Mae bron popeth a wnawn yn ymwneud â chyfathrebu: tasgau pob dydd fel dysgu yn yr ysgol, gofyn am fwyd a diod, datrys problemau, gwneud ffrindiau a chael hwyl. Mae'r rhain i gyd yn dibynnu ar ein gallu i gyfathrebu â'n gilydd.

## Sut mae Makaton yn gweithio

Siarad ag eraill yw'r dull mwyaf cyffredin o gyfathrebu. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn cael anhawster wrth ddefnyddio lleferydd ac mae angen iddynt ddefnyddio gwahanol ffyrdd o gyfathrebu, megis defnyddio symbolau ac arwyddion Makaton.
Wrth siarad, rydym yn aml yn defnyddio offer ychwanegol i helpu'r person rydym yn cyfathrebu ag ef i ddeall yr hyn rydym yn ei ddweud. Er enghraifft, os gofynnir i ni am gyfarwyddiadau, efallai y byddwn yn pwyntio (ystum) neu'n tynnu llun. Mae'r rhain yn gliwiau i helpu i roi mwy o wybodaeth.

Mae Makaton yn defnyddio lleferydd ag arwyddion (ystumiau) a symbolau (lluniau) i helpu pobl i gyfathrebu. Rydym hefyd yn defnyddio mynegiant yr wyneb, cyswllt llygad ac iaith y corff i roi cymaint o wybodaeth â phosibl.

## Pryd y dylid ei ddefnyddio?

Mae Makaton yn ddefnyddiol ar gyfer cefnogi cyfathrebu ar gyfer plant y mae oedi yn eu sgiliau lleferydd ac iaith, neu mae ganddynt anawsterau dysgu cyffredinol, syndrom Down neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a phlant y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.
Mae'n bwysig bod Makaton yn cael ei ddefnyddio'n gyson a bod yr holl staff sy'n gweithio gyda'r plentyn yn ymwybodol o'r arwyddion ac yn eu defnyddio. Mae Makaton yn gweithio orau pan gaiff ei ddefnyddio'n gyson gyda'r holl blant yn y lleoliad, beth bynnag yw eu gallu, a hynny fel rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol yn y lleoliad.


## Sut gallwn ni ei gyflwyno?

Mae'n ddefnyddiol dewis adegau penodol o'r dydd lle defnyddir Makaton fel rhan o drefn gyson. Gall hyn fod yn amser byrbrydau neu'n amser stori. Byddai rhai arwyddion yn cael eu dewis (dim gormod!) a'u defnyddio bob tro y byddai'r drefn yn cael ei chyflawni.

Mae'n bwysig dewis arwyddion sy'n ysgogi'r plentyn e.e. 'trên' i blentyn sy'n dwlu ar drenau. Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio arwyddion sydd ond o fudd i'r staff! Dechreuwch gydag ychydig o arwyddion (hyd at 5) nes bod hyn yn gyson a bod y plentyn yn ymateb i'r arwyddion ac yna ychwanegu mwy yn raddol. Ni fydd llawer o blant yn defnyddio'r arwyddion i gychwyn rhyngweithio yn annibynnol am amser hir ond nid yw hyn yn golygu nad yw'n ddefnyddiol.

## Awgrymiadau Da

- Rhaid i arwyddion fod yn glir ac yn gyson - peidiwch â newid eich arwyddion, hyd yn oed os yw'r plentyn
  yn ei arwyddo'n wahanol.
- Gwnewch yn siŵr fod y plentyn yn gallu eich gweld!
- Peidiwch ag anghofio defnyddio mynegiant wyneb a SIARAD!
- Rhaid bod yn gyson er mwyn i'r system weithio.
- Dylai'r holl staff sy'n ymwneud â'r plentyn ei ddefnyddio.



www.makaton.org